



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Archwiliad o gyfrifon – methiannau o ran rheolaeth ariannol a threfniadau llywodraethu – **Cyngor Cymuned Maenclochog**

Blwyddyn archwilio: 2015-16 a 2016-17

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1034A2019-20



Paratowyd yr adroddiad hwn er budd y cyhoedd yn unol ag Adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Ni dderbynnir unrhyw gyfrifoldeb yn gysylltiedig ag unrhyw swyddog, aelod neu unigolyn arall yn eu swyddogaeth unigol nac unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partion perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partion perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@audit.wales.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Cynnwys

Gan weithredu o dan drefniadau dirprwyedig ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, rwyf wedi cyhoeddi'r adroddiad hwn o dan adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i dynnu sylw'r cyhoedd at fethiannau o ran trefniadau llywodraethu a diffygion o ran rheolaeth ariannol a rheolaeth fewnol yng Nghyngor Cymuned Maenclochog.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi nifer o fethiannau o ran rheolaeth ariannol a rheolaeth fewnol yng Nghyngor Cymuned Maenclochog ac yn cynnig argymhellion i fynd i'r afael â'r methiannau hynny. Mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried yr adroddiad a'r argymhellion a wnaed, yn unol ag adran 25 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio amodol ar eich Datganiadau Blynyddol ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2015-16 a 2016-17.

Adroddiad cryno

Cyflwyniad	4
Cyngor Cymuned Maenclochog	5
Fy ngwaith archwilio	5
Prif ganfyddiadau	5
Argymhellion a chymau nesaf	5

Adroddiad manwl

Mae'r Cyngor wedi methu â chadw cofnodion cyfrifyddu priodol a darparu tystiolaeth ddigonol i mi ei harchwilio, felly ni allaf gynnig barn ar ba un a yw'r cyfrifon blynyddol yn cyflwyno derbyniadau a thaliadau y Cyngor yn briodol

8

Nid yw trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn gyson â'r haeriadau cadarnhaol y mae wedi eu gwneud yn ei Ddatganiad Blynyddol

8

Adroddiad cryno

Cyflwyniad

- 1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi fy nghasgliadau sy'n deillio o fy archwiliad o gyfrifon Cyngor Cymuned Maenclochog (y Cyngor) ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2015-16 a 2016-17. Yn ystod fy archwiliad nodais fethiannau sylweddol yn y trefniadau llywodraethu a diffygion o ran y rheolaeth ariannol a'r rheolaeth fewnol.
- 2 Cyflwynir yr adroddiad hwn er budd y cyhoedd o dan Adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (y Ddeddf). Rwyf wedi cyflwyno'r adroddiad hwn i dynnu sylw'r cyhoedd at fethiannau o ran trefniadau llywodraethu a diffygion o ran rheolaeth ariannol a rheolaeth fewnol yn y Cyngor. Rwyf o'r farn ei bod yn bwysig bod gan y cyhoedd ymwybyddiaeth lawn a phriodol o'r digwyddiadau yn y Cyngor.
- 3 Rwyf hefyd o'r farn ei bod yn briodol rhoi cyfle i'r Cyngor ddangos y camau pwysig a gymerwyd eisoes i wella trefniadau ac i sicrhau cyn lleied â phosibl o berygl y bydd methiannau llywodraethu o'r fath yn codi eto. Mae gwersi i'w dysgu nid yn unig gan y Cyngor, ond gan yr holl gynghorau cymuned yng Nghymru.

Cyngor Cymuned Maenclochog

- 4 Mae'r Cyngor wedi'i leoli yn Sir Benfro ac mae'n gwasanaethu pentref Maenclochog. Mae'r Cyngor yn gwario rhyw £4,000 y flwyddyn ar wasanaethau lleol. Golyga hyn fod y Cyngor yn un o'r cynghorau cymuned lleiaf yng Nghymru.
- 5 Mae'n ariannu'r gwariant hwn trwy braesept gan Gyngor Sir Benfro. Mae'r Cyngor Sir yn casglu'r praesept trwy dreth gyngor ychwanegol a godir ar drigolion y Cyngor. Daw cyllid y Cyngor o du'r cyhoedd a chaiff ei aelodau eu hethol gan drigolion lleol. Felly mae'r Cyngor yn atebol i'r etholaeth leol.
- 6 Mae cynghorau cymuned fel Maenclochog, yn rhinwedd eu natur fach iawn, fel arfer yn dibynnu ar un swyddog allweddol, y Clerc, i reoli eu materion gweinyddol. Yn amlach na pheidio, y Clerc hefyd a benodir i swydd y Swyddog Cyllid Cyfrifol. Y Swyddog Cyllid Cyfrifol sydd â chyfrifoldeb dros weinyddu materion ariannol y Cyngor yn ddyddiol. Yn arbennig, mae hyn yn cynnwys derbyn a chofnodi incwm, paratoi taliadau siec i'w llofnodi gan yr aelodau, cadw'r cofnodion cyfrifyddu a pharatoi'r datganiadau cyfrifyddu blynyddol.
- 7 Yn ogystal â swyddogaeth y Clerc/Swyddog Cyllid Cyfrifol, cyfrifoldeb y Cyngor (hynny yw ei aelodau) yw cadwraeth cronfeydd y Cyngor yn ôl y gyfraith (Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (y Rheoliadau)). Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod y Cyngor yn rheoli ei arian yn effeithiol ac yn effeithlon. Mae hefyd yn cynnwys pethau megis sefydlu system briodol o reolaeth fewnol, gan gynnwys archwiliad mewnol, a chymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu blynyddol cyn eu cyflwyno i'r archwilydd allanol eu harchwilio.

Fy ngwaith archwilio

- 8 Mae fy ngwaith archwilio ar gynghorau cymuned a thref yn canolbwyntio ar ddatganiad blynyddol wedi ei gwblhau gan y cynghorau a'i gyflwyno i archwilwyr sy'n gweithio ar fy rhan. Mae'r datganiad blynyddol yn cynnwys y datganiadau cyfrifyddu blynyddol y mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r cyngor eu paratoi a datganiad llywodraethu blynyddol sy'n nodi sut y mae'r cyngor wedi rheoli ei faterion ariannol.
- 9 Oherwydd oedi cyn derbyn y datganiad blynyddol ar gyfer 2017-18, cyfeiriodd yr archwilwyr a oedd yn gweithio ar fy rhan Gyngor Cymuned Maenclochog ataf i. Mae hyn wedi arwain at benodi aelod o staff Swyddfa Archwilio Cymru i fod yn gyfrifol am archwilio'r cyfrifon hyn, dan fy nghyfarwyddyd i, er mwyn cyflawni'r archwiliad yn foddhaol.
- 10 Fy mhrif ddyletswyddau fel archwilydd statudol y Cyngor yw darparu barn ar gyfrifon y Cyngor a dod i gasgliad ar ba un a oes gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau. Cyflawnaf y cyfrifoldebau hyn drwy archwilio'r cyfrifon ac adolygu trefniadau llywodraethu y Cyngor.

Prif ganfyddiadau

- 11 Yn ogystal â'r gofyniad yn ôl y gyfraith i'r Cyngor gadw cofnodion cyfrifyddu priodol, nododd fy ngwaith archwilio ddiffygion yn y cofnodion hyn. Mae'r diffygion hyn yn cynnwys:
 - Diffyg dogfennau ategol ar gyfer taliadau a wnaed; a
 - Diffyg datganiadau banc ar gyfer y blynyddoedd ariannol a oedd yn destun yr archwiliad.
- 12 Nid yw haeriadau cadarnhaol y Cyngor yn ei ddatganiad llywodraethu blynyddol ynglŷn â'i drefniadau llywodraethu yn gyson â'r dystiolaeth a gefais i yn ystod fy archwiliad.
- 13 Caiff fy nghanfyddiadau ei nodi'n fanwl yng ngweddill yr adroddiad hwn.

Argymhellion a'r camau nesaf

Argymhellion

- 14 Ar sail fy adolygiad, tynnaf sylw'r Cyngor at y 13 o argymhellion canlynol:

Argymhellion

- | | |
|----|---|
| A1 | Mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn cadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n ddigonol i gofnodi ei drafodiadau ar gyfer y flwyddyn ac i fod yn sail ar gyfer paratoi'r cyfrifon. |
|----|---|

Argymhellion	
A2	Mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau bod y Datganiad o Gyfrifon yn cael ei baratoi a'i gymeradwyo cyn 30 Mehefin bob blwyddyn.
A3	Mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau bod cynghorwyr unigol yn deall eu cyfrifoldebau am y cyfrifon blyneddol.
A4	Mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau bod y cyfrifon yn cael eu cyflwyno i'w harchwilio yn brydlon ar ôl eu cymeradwyo.
A5	Mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf a'r Rheoliadau yn brydlon o ran cyfrifon 2015-16 a 2016-17.
A6	Dylai'r Cyngor gadw tystiolaeth ddigonol ei fod wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol.
A7	Mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn paratoi cyllideb yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 cyn pennu ei braesept.
A8	Dylai'r Cyngor fonitro ei wariant o'i gymharu â'r gyllideb hon drwy gydol y flwyddyn, e.e. trwy gymariaethau chwarterol o wariant yn erbyn y gyllideb.
A9	Mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn cyflwyno contract cyflogaeth y cytunwyd arno yn nodi telerau ac amodau y gyflogaeth i'r cleric.
A10	Dylai'r Cyngor adolygu taliad cyflog y Clerc i gadarnhau bod y cyflog a'r didyniadau ar gyfer treth (gan gynnwys treth ar y lwfans treuliau) wedi eu cyfrifo'n gywir.
A11	Dylai'r Cyngor sicrhau, os yw'n ofynnol, ei fod yn cofrestru fel cyflogwr gyda CThEM.
A12	Mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn nodi pa ddogfennau y mae'n ofynnol iddo eu cyhoeddi yn electronig ac yn gwneud trefniadau priodol i gyhoeddi'r rhain ar wefan yn brydlon.
A13	Mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn sefydlu system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol a'i fod yn cael adroddiad priodol gan yr archwilydd bob blwyddyn.

Camau nesaf

- 15 Mae'n ofynnol o dan Adran 25 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i'r Cyngor ystyried yr adroddiad hwn mewn cyfarfod llawn y Cyngor o fewn un mis i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad. Yn y cyfarfod, bydd angen i'r Cyngor benderfynu:
- a yw'r adroddiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gymryd unrhyw gamau;
 - a ddylid derbyn yr argymhellion yn yr adroddiad; a
 - pha gamau i'w cymryd (os o gwbl) mewn ymateb i'r adroddiad a'r argymhellion.

- 16 Bydd angen i'r Cyngor baratoi ymateb ysgrifenedig i'r adroddiad wedyn a chytuno ar eiriad yr ymateb hwnnw gyda mi cyn cyhoeddi ei ymateb yn unol ag adran 25 o'r Ddeddf.



Anthony Barrett
Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol
19 Mehefin 2019

Adroddiad manwl

Mae'r Cyngor wedi methu â chadw cofnodion cyfrifyddu priodol a darparu tystiolaeth ddigonol i mi i archwilio, felly ni allaf gynnig barn ar ba un a yw'r cyfrifon blynyddol yn cyflwyno derbyniadau a thaliadau'r Cyngor yn iawn

- 17 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gadw cofnodion cyfrifyddu priodol o'i drafodiadau. Dylai'r cofnodion hyn gynnwys llyfr arian parod (neu rywbeth cyfatebol) ac anfonebau a dogfennau eraill i ategu trafodiadau unigol a gofnodir yn y llyfr arian parod. Dylai'r llyfr arian parod gofnodi trafodiadau unigol a pheidio â grwpio trafodiadau gyda'i gilydd. Rhoddodd clerc y Cyngor, Mr David Williams, gopiâu o'r dogfennau a gedwir gan y Cyngor i mi.
- 18 Nododd fy archwiliad fod y Cyngor wedi grwpio ei dderbyniadau praesept yn un cofnod trafodiad yn y llyfr arian parod. Derbyniodd y Cyngor ei braesept mewn tri rhandaliad mewn gwirionedd.
- 19 Ni ddarparwyd copiâu o ddogfennau ategol ar gyfer pob taliad i mi. Ceisiais gysoni'r trafodiadau a gofnodwyd yn y llyfr arian parod â'r rhai a gyflwynwyd i'w fanc, fel y'u cofnodwyd yn ei gyfriflenni banc, yn rhan o'm harchwiliad. Darparodd y Cyngor gyfriflenni banc ar gyfer y cyfnod o 22 Gorffennaf 2017 i 21 Rhagfyr 2017 yn unig. Mae'r datganiadau hyn y tu allan i gwmpas fy archwiliad.
- 20 O'r herwydd, ni allaf ddod i gasgliad ynghylch cywirdeb na chyflawnrwydd y datganiadau cyfrifyddu. Yn sgil hynny, rwy'n bwriadu cynnig barn ymwrthod ar gyfrifon y Cyngor ar gyfer 2015-16 a 2016-17 ar y sail bod y Cyngor wedi methu â chadw cofnodion cyfrifyddu priodol.

Nid yw trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn gyson â'r haeriadau cadarnhaol y mae wedi eu gwneud yn ei Ddatganiad Blynyddol

- 21 Yn ogystal â chyflwyno'r cyfrifon ar gyfer blwyddyn benodol, mae'r Datganiad Blynyddol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud datganiad ffurfiol ynghylch y trefniadau sydd ganddo ar waith ar gyfer ei lywodraethu a'i reolaeth ariannol. Cyfeirir at hwn fel y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
- 22 Mae **Arddangosyn 1** isod yn nodi elfennau allweddol y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ynghylch trefniadau'r Cyngor, ynghyd â fy asesiad o'r elfennau hynny. Fel y nodir, mae cwmpas y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn amrywio o un flwyddyn i'r llall.

Arddangosyn 1: Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Haeriad	Ymateb y Cyngor	Asesiad archwilio
Wedi paratoi a chymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu yn briodol	Do	Naddo
Wedi cynnal ac adolygu effeithiolrwydd system briodol o reolaeth fewnol, gan gynnwys mesurau i atal a chanfod twyll a llygredd	Do	Naddo
Wedi cymryd camau i sicrhau nad oes unrhyw faterion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau, rheoliadau a chodau ymarfer	Do	Naddo
Wedi cynnig cyfle priodol i arfer hawliau etholwyr o ran y cyfrifon	Do	Naddo
Wedi cynnal asesiad o'r risgiau sy'n wynebu'r Cyngor	Do	Naddo
Wedi cynnal system briodol ac effeithiol o archwilio mewnol	Do	Naddo
Wedi ystyried effaith ariannol unrhyw ymglyfreitha, rhwymedigaethau neu ymrwymadau, digwyddiadau neu drafodiadau	Do	Methu â dod i gasgliad.
Cymerwyd camau priodol o ran adroddiadau archwilio mewnol ac allanol	Do	Naddo
2015-16 yn unig		
Wedi cyfrifo a chymeradwyo'r gofyniad cyllidebol fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith	Do	Naddo
Wedi derbyn adroddiadau ariannol manwl ar dderbyniadau a thaliadau a sefyllfa ariannol y Cyngor ac wedi monitro'r sefyllfa ariannol o'i chymharu â'r gyllideb	Do	Naddo
Wedi sicrhau bod archwilydd mewnol y Cyngor yn annibynnol ar y broses gwneud penderfyniadau	Do	Naddo
2016-17 yn unig		
Wedi cofrestru fel cyflogwr gyda Chyllid a Thollau EM	Dim ymateb.	Naddo
Wedi cadw cofnodion cyflogres priodol	Dim ymateb.	Naddo
Wedi mabwysiadu Cod Ymarfer ar gyfer aelodau	Dim ymateb.	Naddo

Ffynhonnell: Datganiad Blynyddol Maenclochog a dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru

- 23 Ar gyfer y ddwy flwyddyn archwilio a ystyrir yn yr adroddiad hwn, 2015-16 a 2016-17, mae'r Cyngor wedi cwblhau'r datganiadau fel y nodwyd uchod ar y sail ei fod yn cydymffurfio â'r gofynion a nodir mewn deddfwriaeth a chanllawiau cyhoeddedig. Pan fo haerriad cadarnhaol wedi ei wneud, nid yw wedi egluro ei ymatebion nac wedi cynnig esboniadau ynghylch meysydd lle mae naill ai'n ddiffygiol neu'n gweithio i sicrhau gwelliannau.
- 24 Yn fy marn i felly, nid yw'r datgeliadau llywodraethu a wnaed gan y Cyngor yn gyson â'r sefyllfa a adlewyrchir yn ei ddogfennau.
- 25 Rwyf o'r farn nad yw'r Cyngor wedi cymryd camau digonol i fodloni ei hun bod ei drefniadau llywodraethu yn effeithiol ac wedi eu datgelu yn deg. Nid yw aelodau'r Cyngor wedi cydnabod yn ddigonol neu gymryd camau yn sgil problemau o ran digonolrwydd eu trefniadau llywodraethu.
- 26 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn cyflwyno nifer o ddiffygion a gwendidau yn nhrefniadau'r Cyngor sydd wedi bod yn gwbl amlwg i mi yn ystod yr archwiliad.

Methodd y Cyngor â chyflwyno ei gyfrifon blynyddol ar gyfer 2015-16 a 2016-17 i mi eu harchwilio yn unol â'r amserlen statudol

- 27 O dan Adran 13 o'r Ddeddf, mae'n rhaid i'r Cyngor:
- lunio ei gyfrifon bob blwyddyn hyd at 31 Mawrth neu ddyddiad arall y gallai Llywodraeth Cymru ei gyfarwyddo yn gyffredinol neu mewn unrhyw achos arbennig; a
 - sicrhau y caiff ei gyfrifon eu harchwilio yn unol â'r Ddeddf gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.
- 28 Caiff y cyfrifon eu paratoi ar ffurf datganiad blynyddol syml a anfonir i'r Cyngor bob blwyddyn. Mae Rheoliad 15 o'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo'r cyfrifon cyn 30 Mehefin yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae'n rhaid i'r Cyngor anfon y cyfrifon at yr Archwilydd Cyffredinol wedyn, a chyhoeddi cyfrifon wedi eu harchwilio erbyn 30 Medi.
- 29 Nid yw'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r amserlenni statudol ar gyfer cyflwyno ei gyfrifon i'w harchwilio ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2015-16 a 2016-17.
- 30 Mae **Arddangosyn 2** yn nodi'r dyddiadau y cymeradwyodd y Cyngor y cyfrifon a'r dyddiadau yr anfonwyd y cyfrifon at fy archwilwyr.

Arddangosyn 2: dyddiadau cwblhau'r cyfrifon

Blwyddyn ariannol	Dyddiad y cymeradwywyd y cyfrifon gan y Cyngor	Dyddiad y'u cyflwynwyd i'w harchwilio
2015-16	19 Mai 2016	28 Ionawr 2018
2016-17	25 Mai 2017	28 Ionawr 2018

Ffynhonnell: dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru

- 31 Mae fy adolygiad o gofnodion y Cyngor yn dangos na wnaeth y Clerc, Mr Williams, ddarparu cofnod cyflawn a chytbwys i'r Cyngor o'i berfformiad o ran cydymffurfio â'r terfynau amser hyn. Ysgrifennais at y clerc ym mis Awst 2017 a chefais gyfarfod â'r clerc a'r cadeirydd ar 28 Ionawr 2018.
- 32 Er bod hwyrni'r clerc yn ffactor arwyddocaol ym methiant y Cyngor i gydymffurfio â'i gyfrifoldebau statudol, mae'n rhaid i'r Cyngor ei hun ysgwyddo rhywfaint o gyfrifoldeb am y methiant hwn. Nid wyf wedi canfod unrhyw dystiolaeth bod y Cyngor wedi cymryd unrhyw gamau o ran cyfrifon hwyr. Nid yw cofnodion y Cyngor yn cofnodi unrhyw bryderon yn ymwneud â chyflwyniad hwyr cyfrifon 2015-16 a 2016-17. Mae hyn yn awgrymu nad yw cynghorwyr unigol yn deall eu cyfrifoldebau o ran y cyfrifon.

Nid oes digon o dystiolaeth i gadarnhau pa un a oes trefniadau priodol wedi eu gwneud i arfer hawliau cyhoeddus

- 33 Mae Adrannau 30(2) a 31(1) o'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth ar gyfer hawliau cyhoeddus i arolygu'r cyfrifon i'w harchwilio, i holi'r archwilydd ynglŷn â'r cyfrifon ac i gyflwyno gwrthwynebiadau gerbron yr archwilydd ynghylch unrhyw fater y mae gan yr archwilydd bŵer cysylltiedig i;
 - wneud cais am ddatganiad bod eitem gyfrifyddu yn anghyfreithlon; ac
 - unrhyw fater arall y mae gan yr archwilydd bŵer cysylltiedig i lunio adroddiad o dan adran 22 o'r Ddeddf.
- 34 Mae Rheoliad 17 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Corff roi rhybudd trwy hysbyseb i'r cyhoedd yn nodi'r cyfnod pan fo'r cyfrifon a dogfennau eraill ar gael i'w harchwilio ac yn rhoi'r manylion canlynol:
 - y cyfnod pan fyddant ar gael;
 - y darpariaethau sydd wedi eu cynnwys yn adran 30 ac adran 31 o'r Ddeddf; a'r
 - dyddiad a benodwyd o dan Reoliad 21.
- 35 Ni ddarparwyd digon o dystiolaeth i mi allu dangos bod y Cyngor wedi cydymffurfio â gofynion y Ddeddf. Felly, rwyf wedi pennu 29 Gorffennaf 2019 yn ddyddiad cychwyn pan gaiff etholwyr lleol arfer eu hawliau o dan y Ddeddf.

Ni wnaeth y Cyngor baratoi cyllideb ar gyfer 2015-16 na 2016-17

- 36 Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau gyfrifo a chymeradwyo'r gyllideb flynyddol. Mae Adran 41 o'r Ddeddf hon yn caniatáu i gynghorau gyflwyno praesept, y mae ei sail wedi ei phenderfynu, yn unol ag Adran 50, trwy gyfrifo'r gofyniad cyllidebol.
- 37 Heb ystyried y gofyniad statudol hwn, mae'r gyllideb yn bwysig oherwydd ei bod:
- Yn arwain at bennu'r praesept ar gyfer y flwyddyn
 - Yn rhoi awdurdod i'r cyngor wario arian yn unol â chynlluniau gwario a gymeradwywyd a rheoliadau ariannol; ac
 - Yn cynnig sail ar gyfer monitro cynnydd yn ystod y flwyddyn trwy gymharu gwariant gwirioneddol â gwariant a gynlluniwyd
- 38 Mae'r gyllideb yn elfen hanfodol o reolaeth ac atebolrwydd ariannol effeithiol ac, yn y pen draw, mae'n lleihau faint o amser y mae cynghorau yn ei dreulio yn rheoli eu hadnoddau ariannol. Yn absenoldeb trefniadau pennu a monitro cyllideb priodol, ni all cynghorau reoli cyllid cyhoeddus yn effeithiol a dangos cydymffurfiad â gofynion statudol.
- 39 Nid oeddwn yn gallu dod o hyd i dystiolaeth yn ystod fy archwiliad bod y Cyngor wedi paratoi cyllideb ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2015-16 na 2016-17. Nid oes unrhyw dystiolaeth o fonitro ariannol priodol gan y Cyngor.

Mae'r Cyngor wedi methu â chynnal trefniadau priodol i weinyddu'r gyflogres a'r Cynllun Talu Wrth Ennill, gan gynnwys talu treth incwm y Clerc i CThEM

- 40 Mae'r rhan fwyaf o gynghorau cymuned, fel Cyngor Cymuned Maenclochog, yn cyflogi un swyddog i gyflawni swyddogaethau'r Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol, sydd ar wahân yn gyfreithiol. Mae mwyafrif y swyddogion hyn yn gweithio'n rhan-amser ac mae eu horiau yn amrywio o un i ddau ddiwrnod yr wythnos, i ychydig o oriau bob chwarter. Mae'r clerch, fel swyddog priodol y cyngor, yn un o gyflogeion y Cyngor. Dylai'r Cyngor ddarparu contract cyflogaeth i unrhyw gyflogeion yn nodi telerau ac amodau'r gyflogaeth. Mae contractau cyflogaeth yn cynnig eglurder ynghylch swyddogaeth a statws y clerch a'r trefniadau tâl cydnabyddiaeth ar gyfer y swydd. Dylai'r Cyngor fod wedi sicrhau ei fod yn deall ei gyfrifoldebau wrth gyflogi'r clerch.
- 41 Fel cyflogwr, mae'n rhaid i'r Cyngor ddidynnu Treth Incwm a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogeion o'u cyflog ac anfon y symiau a ddidynnir i CThEM bob mis neu chwarter ynghyd â Chyfraniadau Yswiriant Gwladol y cyflogeion. Talu Wrth Ennill yw enw'r system hon. Mae'n rhaid talu didyniadau Talu Wrth Ennill i CThEM. Mae'n rhaid i bob cyflogwr gadw cofnodion cyflogres hefyd.

- 42 Talodd y Cyngor gyflog o £600 i'r clerc yn 2015-16 ac yn 2016-17. Fodd bynnag, nid oes cytundeb ysgrifenedig rhwng y Cyngor a'r Clerc yn nodi telerau ac amodau cyflogaeth y Clerc.
- 43 Nid yw'r Cyngor wedi ei gofrestru fel cyflogwr gyda CThEM. Ceir eithriadau cyfyngedig i'r gofyniad i gyflogwyr gofrestru gyda CThEM. Mae'n bosibl y byddai'r Cyngor yn bodloni'r amodau ar gyfer yr eithriadau hyn ond nid yw wedi darparu digon o dystiolaeth i mi i ddod i gasgliad ar ei sail.
- 44 Ar sail y dystiolaeth yr wyf wedi ei gweld o ran y gyflogres a'r cynllun Talu Wrth Ennill yn y Cyngor, rwyf wedi dod i'r casgliad nad yw cofnodion cyflogres priodol wedi eu cadw fel sy'n ofynnol.
- 45 Yn absenoldeb unrhyw gofnodion, ni allaf ddod i gasgliad pa un a dalwyd y cyflog priodol i'r clerc a pha un a yw'r didyniadau Talu Wrth Ennill priodol wedi eu gwneud.

Nid yw'r Cyngor wedi sefydlu gwefan i'w alluogi i gyhoeddi'r holl ddogfennau y mae'n ofynnol iddo eu cyhoeddi yn electronig

- 46 Mae Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (Deddf 2013) yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor lleol sicrhau bod eu manylion cyswllt ac aelodaeth ar gael i'w gweld, yn ogystal â chofnodion eu trafodion drwy'r fewnwyd. Mae Deddf 2013 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor gyhoeddi ei gofrestr o fuddiannau'r aelodau, hysbysiadau cyhoeddus a chyfrifon wedi'u harchwilio yn electronig.
- 47 Mae'r newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf 2013 yn gwella atebolrwydd cynghorau lleol i'w hetholaethau.
- 48 Nododd fy archwiliad nad yw'r Cyngor wedi sefydlu gwefan. Mae'n methu â chyflawni ei gyfrifoldebau felly i gyhoeddi gwybodaeth yn electronig. Dylai'r wefan gynnwys copi o gofrestr o fuddiannau'r aelodau, hysbysiadau o archwiliad a chyfrifon a archwiliwyd y Cyngor.

Ar sail y dystiolaeth a gefais yn ystod fy archwiliad, rwyf i o'r farn na wnaeth y Cyngor gynnal system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol

- 49 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (y Rheoliadau) yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor cymuned sicrhau bod ganddo system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol ar waith.
- 50 Mae archwilio mewnol yn rhan bwysig o'r fframwaith rheoli mewnol cyffredinol. Dylai'r archwilydd mewnol fod yn annibynnol, h.y. beidio â bod yn rhan o brosesau gwneud penderfyniadau y Cyngor, na chwarae unrhyw ran mewn cynnal a chadw'r system gyfrifyddu a pharatoi'r cyfrifon blynyddol. Dylai'r archwilydd mewnol fod

wedi ymgysylltu i gyflawni rhaglen waith y cytunwyd arni, a dylid ystyried ei berfformiad yn flynyddol a chofnodi'r broses ailbenodi.

- 51 Mae'r Datganiad Blynyddol yn cynnwys templed o adroddiad archwilio mewnol sy'n rhoi enghraifft o'r gweithdrefnau archwilio mewnol y gellid eu cynnal ac mae'n darparu templed i adrodd canfyddiadau archwilio i'r Cyngor. Nid yw'n orfodol llenwi'r templed hwn ond os na chaiff ei ddefnyddio dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn cael adroddiad manwl ar wahân gan yr archwilydd mewnol.
- 52 Mae'r adroddiad archwilio mewnol yn darparu sicrwydd cadarnhaol ar gyfer pob un o'r eitemau sydd wedi'u cynnwys yn nhempel yr adroddiad ar y datganiad blynyddol.
- 53 Fel y nodwyd uchod, nododd fy archwiliad nifer o ddiffygion sylweddol sy'n gwrth-ddweud y sicrwydd cadarnhaol a roddir yn yr adroddiad archwilio mewnol. Felly, rwyf yn dod i'r casgliad na wnaeth y Cyngor gynnal system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol yn ystod 2015-16 a 2016-17.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru